COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 29 MAI 2024

Aelodau'r Cabinet:

Y Cynghorwyr: S K Hunt, S A Knoyle, N Jenkins, J Hurley, S Harris, J Hale ac S Jones

Swyddogion a oedd yn Bresennol:

K Jones, N Pearce, A Jarrett, N Daniel, H Jones, C Griffiths, R Crowhurst a T Davies

Cadeirydd Craffu: Y Cynghorydd P Rogers

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CABINET**

   Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 8 Mai 2024, yn gofnod cywir.

5. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd isod yn gofnod cywir:

- Bwrdd Cabinet Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun – 19 Ebrill 2024

- Bwrdd Cabinet Addysg, Sgiliau a Lles – 25 Ebrill 2024

- Bwrdd Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol – 18 Mai 2024

- Is-bwyllgor (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet – 9 Ebrill 2024

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **SEFYDLU CYD-BWYLLGOR GYDA CHYNGOR SIR PENFRO MEWN PERTHYNAS Â PHORTHLADD RHYDD CELTAIDD**

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gamgymeriad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd – dylai'r adroddiad fod wedi dweud y caiff penderfyniad ei weithredu ‘ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau’ yn hytrach na'r hyn a nodwyd, sef ‘ar unwaith’.

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, ymrwymo i Gytundeb y Cyd-bwyllgor â Chyngor Sir Penfro. Mae hyn yn amodol ar Gyngor Sir Penfro yn gwneud yr un peth yn unig, gan ystyried unrhyw fân newidiadau a all fod yn angenrheidiol ac nad ydynt yn newid corff y ddogfen, yn unol â'r manylion yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bydd yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Aelod y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Thwf Economaidd yn cael eu penodi'n gynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar y Cyd-bwyllgor.

3. Rhoddir awdurdod i unrhyw Aelod Cabinet eistedd fel cynrychiolydd amgen ar y Cyd-bwyllgor yn absenoldeb yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a

Chyfiawnder Cymdeithasol ac Aelod y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Thwf Economaidd.

4. Bydd yr aelodau'n nodi adroddiad i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol, gan gytuno i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu â Chyngor Sir Penfro.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Cytuno i sefydlu Cyd-bwyllgor â Chyngor Sir Penfro mewn perthynas â'r cynlluniau ariannu Ardrethi Annomestig a Chyfalaf Sbarduno a fydd yn cael eu datblygu.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Datblygwyd y cais Porthladd Rhydd gan y ddau awdurdod lleol, Associated British Ports ac Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, gan weithio mewn partneriaeth. Cafwyd ymgynghoriad ehangach hefyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys rhwydweithiau busnes yn ardal arfaethedig y porthladd rhydd.

8. **PENODI UWCH-GRWNER AR GYFER ABERTAWE A CHASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad sgrinio effaith integredig, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol, wneud y canlynol –

- cytuno ar y disgrifiad swydd, y telerau cytundebol a'r broses benodi ar gyfer y swydd Uwch-grwner a gwneud trefniadau addas ar gyfer hysbysebu'r swydd yn briodol;

- cymryd yr holl gamau angenrheidiol i symud y broses o benodi Uwch-grwner yn ei blaen;

- mewn ymgynghoriad â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a Swyddfa'r Prif Grwner, sefydlu panel er mwyn llunio rhestr fer, cyfweld ag ymgeiswyr a phenodi'r ymgeisydd llwyddiannus yn Uwch-grwner ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Sicrhau y penodir Uwch-grwner ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a bodloni gofynion cyfreithiol Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Rhoi Penderfyniadau ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYNNYDD I FFÏOEDD CERBYDAU HACNI (TACSIS)**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, cymeradwyir y cynnydd mewn ffioedd cerbydau hacni, yn unol â'r manylion yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Fodd bynnag, pe bai gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn yn dilyn hysbyseb gyhoeddus, dylid cyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Penderfynu ar gynnydd mewn prisiau cerbydau hacni.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori â'r holl berchnogion a gyrwyr a oedd yn bresennol. O ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori, cafwyd 42 o ymatebion sydd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

10. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 12 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y

cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Yr elfen amser.

11. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

PENDERFYNWYD: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **REPLACEMENT COMMUNITY SERVICES TRANSPORT VEHICLE**

Penderfyniadau:

1. Atal Rheol 11.4.1 y Rheolau Gweithdrefn Contractau.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth ymrwymo i gontract ar gyfer prynu dau fws mini ail-law ag 17 sedd sydd wedi'u haddasu ar gyfer cadeiriau olwyn, at ddibenion cludo defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth, a chael gwared ar yr hen gerbydau, am y swm a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Galluogi'r Cyngor i sicrhau'r bysus cyn iddynt gael eu gwerthu i sefydliad arall. Bydd y bysus yn darparu cludiant o ansawdd gwell i breswylwyr mwyaf diamddiffyn Castell-nedd a Phort Talbot y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal dydd.

Rhoi Penderfyniadau ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

13. **HAWDDFRAINT AM BYTH ARFAETHEDIG - PARC MANWERTHU PONTARDAWE**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cymeradwywyd yr amodau a'r telerau ar gyfer rhoi'r hawddfraint am byth i Lidl Great Britain Limited, yn unol â manylion yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Galluogi Lidl Great Britain Limited i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol yn unol â manylion yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

CADEIRYDD